

HUGHES, WILLIAM JOHN (1833 - 1879), cerddor ac ysgolfeistr

Enw: William John Hughes

Dyddiad geni: 1833

Dyddiad marw: 1879

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cerddor ac ysgolfeistr

Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth

Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd Rhagfyr 1833 mewn amaethdy o'r enw Penuch-Roe, ger Llanelwy. Cafodd addysg dda, a daeth yn ysgolhaig gwych ac yn gerddor galluog. Bu'n athro mewn ysgol ramadeg yn Enniskillen, Iwerddon, am rai blynyddoedd. Symudodd oddi yno yn athro i Harleston, Norfolk, a daliai y swydd o organydd yr eglwys yno. Tua 1855 daeth i Llanrwst i gymryd gofal yr ysgol ramadeg. Wedi rhai blynyddoedd sefydlodd ysgol ramadeg yn y Rhyl, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Cyfansoddodd lawer o anthemau a thonau, a chyhoeddwyd hwynt yn *Y Ceinion* ('[Hafrenydd](#)'), *Caniadau y Cysegr a'r Teulu* ([Gee](#), Dinbych), *Llyfr Tonau ac Emynuau* ([Stephen a Jones](#)), *Udgorn Seion* ('[Dewi Wylt](#)'), ac *Aberth Moliant* ([Ambrose Lloyd](#)). Trefnodd amryw o'r hen anthemau i'r *Y Cerddor Cymreig*, a golygodd gasgliad o donau (*S. Asaph Tune Book*). Cynorthwyodd [John Roberts](#), Henllan, gyda'i gasgliad tonau, *In Memoriam*. Bu farw yn y Rhyl, Mehefin 1879.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Yr Haul, 1894

Y Cerddor, Gorffennaf 1893

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734650](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

